# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

**HWLG(3)-03-08 (p1): 30 Ionawr 2008**

### Ymchwiliad y Pwyllgor i Ganiatâd Tybiedig ar gyfer rhoi Organau - Papur gan Wasanaeth Cyfreithiol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ""

Paratowyd y ddogfen hon gan gyfreithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi gwybodaeth a chyngor i Aelodau'r Cynulliad a'u staff am faterion y mae'r Cynulliad a'i bwyllgorau'n eu hystyried ac nid am unrhyw reswm arall. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a'r cyngor a geir yn y ddogfen hon yn gywir, ond nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ddibyniaeth a roddir arnynt gan drydydd parti

### Rhoi Organau a Chaniatâd Tybiedig

Paratowyd y nodyn hwn i gynorthwyo'r Aelodau yn eu hymchwiliad arfaethedig i ganiatâd tybiedig. Mae'n egluro'r gyfraith bresennol, pwerau presennol a phwerau posibl y Cynulliad yn y maes hwn.

### Cefndir

1. Mae'r gyfraith yn ymwneud ag organau wedi'i chynnwys yn Neddf Meinweoedd Dynol 2004 ("y Ddeddf"). Mae'r Ddeddf yn diddymu ac yn disodli Deddf Meinweoedd Dynol 1961, Deddf Anatomi 1984 a Deddf Trawsblannu Organau Dynol 1989 fel y maent yn ymwneud â Chymru a Lloegr. Mae'r Ddeddf yn gymwys i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac yn delio'n bennaf â materion a gadwyd yn ôl er i'r Ddeddf roi pŵer i'r Cynulliad (fel y'i sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998) benodi aelod i'r Awdurdod Meinweoedd Dynol. Drwy Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gall Gweinidogion Cymru yn awr arfer y pŵer hwn. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynghylch amrywiaeth o faterion gan gynnwys codau ymarfer statudol.

2. Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn ymwneud â chaniatâd. Mae'n egluro'r angen i gael y caniatâd priodol i ymgymryd â gweithgareddau sydd wedi'u rheoleiddio gan y Ddeddf, gan gynnwys cadw a defnyddio cyrff cyfan, tynnu deunyddiau dynol (organau, meinweoedd a chelloedd) o gyrff marw a'u cadw a'u defnyddio. Mae'n drosedd ymgymryd â gweithgareddau sydd wedi'u rheoleiddio heb ganiatâd priodol, ac yn anghyfreithlon defnyddio cyrff neu ddeunyddiau dynol, ar ôl iddynt gael eu rhoi, at unrhyw ddiben ac eithrio'r rheini a nodir yn y Ddeddf. Nid yw'r Ddeddf yn ymwneud â thynnu (o'i gyferbynnu â chadw a defnyddio) deunyddiau dynol o gyrff pobl sy'n dal yn fyw.

### "Caniatâd priodol"

3. Mae'r Ddeddf wedi'i seilio ar yr egwyddor bod angen caniatâd gan berson priodol ("caniatâd priodol") cyn ymgymryd â rhai gweithgareddau arbennig at ddibenion penodol. Yng nghyswllt plant (h.y. dan 18 oed ac eithrio yng nghyd-destun perthynas gymhwysol), caiff plant byw, os ydynt yn gymwys i wneud hynny, roi eu caniatâd eu hunain. Os nad ydynt yn gymwys, neu'n dewis peidio â phenderfynu, person sydd â chyfrifoldeb rhiant drostynt fydd yn gallu rhoi caniatâd priodol. Os yw plentyn wedi marw, ac wedi rhoi neu wrthod caniatâd priodol ymlaen llaw, ac yn gymwys i wneud hynny, y penderfyniad hwnnw gaiff ei weithredu. At rai dibenion penodol, fel defnyddio organau i'w trawsblannu, person sydd â chyfrifoldeb rhiant fydd yn gallu rhoi caniatâd priodol os nad oedd y plentyn wedi penderfynu ar y mater.

4. Yng nghyswllt corff oedolyn sydd wedi marw (h.y. person 18 oed neu drosodd) os nad yw'r person wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw, person a enwebwyd gan yr ymadawedig fydd yn gallu rhoi "caniatâd priodol" neu, os nad oedd yr ymadawedig wedi enwebu neb, rhaid i berson mewn "perthynas gymhwysol" roi caniatâd priodol. Mae'r canlynol yn berthnasau cymhwysol at ddibenion y Ddeddf: priod, partner, rhiant, plentyn, brawd, chwaer, taid neu nain, ŵyr neu wyres, plentyn brawd neu chwaer, llystad, llysfam, hanner brawd, hanner chwaer a hen gyfaill.

### Gweithgareddau sydd wedi'u gwahardd heb ganiatâd

5. Mae'r Ddeddf yn cosbi (ymhlith pethau eraill) pobl sy'n ymgymryd â'r gweithgareddau a ganlyn os gwneir hynny heb ganiatâd priodol:

Cadw corff person sydd wedi marw ;

Defnyddio corff person sydd wedi marw:

Tynnu deunydd perthnasol (h.y. deunydd, nad yw'n gamet, sy'n cynnwys celloedd dynol) o gorff person sydd wedi marw;

Cadw deunydd perthnasol sydd wedi dod o gorff person sydd wedi marw;

Defnyddio deunydd perthnasol sydd wedi dod o gorff dynol;

Defnyddio deunydd perthnasol sydd wedi dod o gorff person sydd wedi marw.

Os rhoddir caniatâd i un pwrpas penodol, ni chaiff ei ddefnyddio at unrhyw bwrpas arall.

## Gweithgareddau sydd wedi'u rheoleiddio

6. Dim ond at y dibenion sydd wedi'u gosod allan yn Atodlen 1 i'r Ddeddf y gellir ymgymryd â'r gweithgareddau y cyfeirir atynt ym mharagraff 5 uchod. Dyma'r gweithgareddau: Archwiliad anatomegol. Penderfynu ar achosion marwolaeth. Penderfynu pa mor effeithiol oedd cyffur neu driniaeth benodol wedi i berson farw. Cael gwybodaeth wyddonol neu feddygol am berson sy'n dal yn fy neu berson sydd wedi marw a all fod yn berthnasol i eraill (yn awr neu yn y dyfodol). Arddangosfa gyhoeddus. Ymchwil mewn perthynas ag anhwylderau, neu'r ffordd y mae'r corff dynol yn gweithio Trawsblannu. Archwiliad clinigol. Addysg neu hyfforddiant yn ymwneud ag iechyd pobl. Asesu perfformiad. Monitro iechyd y cyhoedd. Sicrwydd ansawdd.

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy orchymyn, amrywio, hepgor neu ychwanegu at y dibenion y cyfeirir atynt yn Atodiad 1. Nid oes pŵer i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud hynny.

7. Mewn perthynas â thrawsblannu organau, byddai angen caniatâd priodol i dynnu, o gorff marw, unrhyw ddeunydd sydd wedi dod o gorff dynol at ddibenion trawsblannu. 8. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymgymryd â gweithgareddau'n ymwneud ag oedolion analluog a chaniatáu i'r llysoedd hepgor yr angen i gael caniatâd e.e. mewn perthynas ag ymchwil sy'n ymwneud ag iechyd lle mae diddordeb cyhoeddus aruthrol.

## Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad

9. Mae Maes 9 yn Atodiad 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006") yn galluogi'r Cynulliad i basio mesurau ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae Maes 9 yn cynnwys un Mater yn unig - Mater 9.1 - sy'n ymwneud â threfniadau gwneud iawn am gamweddau. O ganlyniad, mae angen Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol e.e. i ddiwygio'r Ddeddf i ddarparu ar gyfer caniatâd tybiedig mewn amgylchiadau arbennig. Yna, er mwyn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu yng nghyswllt rhoi organau, byddai angen Mesur i ddiwygio'r Ddeddf i ddarparu y gellid tybio bod caniatâd priodol wedi'i roi, yn amodol ar rai eithriadau penodol, mewn perthynas â thynnu, o gorff marw, unrhyw ddeunydd perthnasol sydd wedi dod o gorff dynol at ddibenion trawsblannu. 10. Drwy Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, gellir ychwanegu Materion at y Meysydd sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 5 i Ddeddf 2006. Maes 9 sy'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac, ar yr olwg gyntaf, ymddengys mai yn y Maes hwn y dylid cynnwys Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn ymwneud â rhoi organau/caniatâd tybiedig a fyddai'n caniatáu i Fesur (neu Fesurau) gael eu pasio. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, dylid ymdrin â'r mater yn ofalus, gan y byddai angen ystyried y ffactorau a nodir isod. 11. Mae Atodlen 7 i Ddeddf 2006 (nad yw mewn grym eto) yn gosod allan y pynciau y byddai'r Cynulliad yn gallu pasio Deddfau yn eu cylch pe bai Rhan 4 o Ddeddf 2006 yn dod i rym a phe bai canlyniad y refferendwm yn gadarnhaol. Mae Paragraff 9 yn Atodlen 7 yn cyfeirio at wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a byddai'r caniatáu i Deddf Cynulliad gael ei phasio mewn perthynas ag :- "Atal, trin a lliniaru afiechyd, salwch, anabledd ac anhwylder meddyliol" ymhlith pethau eraill. Byddai angen sicrhau bod Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig yn berthnasol i'r uchod ac nad oedd yn ddarostyngedig i'r eithriadau a nodwyd ym mharagraff 9. O'r rhain, cafodd y canlynol eu cadw'n ôl o'r setliad datganoli gwreiddiol - geneteg dynol a senotrawsblaniad- ac maent hefyd wedi'u heithrio o'r pwerau i roi cyfarwyddyd a roddwyd i Weinidogion Cymru drwy Adran 19 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. 12. Yn y pen draw, gall y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Gwladol gyfeirio achos at y Llys Goruchaf, a fydd yn penderfynu a fyddai Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig yn berthnasol i faes sydd wedi'i restru yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006.

Cynghorwyr Cyfreithiol

[Rhagfyr 2007]